CYHOEDDIAD, DOGFENNU

# Dileu elw o ofal plant sy'n derbyn gofal: briffio Rhagfyr 2023

Diweddariad Rhagfyr 2023 am waith y Bwrdd Rhaglen.

**Cyhoeddwyd gyntaf:** 12 Ionawr 2024

**Diweddarwyd ddiwethaf:** 12 Ionawr 2024

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/dileu-elw-o-ofal-plant-syn-derbyn-gofal-briffio-rhagfyr-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Cynnwys

**Cefndir**

**Crynodeb o drafodaeth y Bwrdd Rhaglen – 22 Tachwedd 2023**

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/dileu-elw-o-ofal-plant-syn-derbyn-gofal-briffio-rhagfyr-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Cefndir

Mae ein Rhaglen Lywodraethu yn cynnwys nifer o ymrwymiadau sy'n nodi ein gweledigaeth ar gyfer gwasanaethau plant yng Nghymru. Ein huchelgais yw newid y system gyfan ac, wrth ei gwraidd, rydym am weld rhagor o blant a phobl ifanc yn cael eu galluogi i fyw gyda'u teuluoedd ac yn eu cymdogaethau gyda llawer llai angen mynd i ofal. Rydym hefyd am sicrhau bod y cyfnod y mae pobl ifanc yn ei dreulio mewn gofal mor fyr â phosibl.

Rydym wedi ymrwymo i gadw teuluoedd gyda'i gilydd. Ein gweledigaeth yw ailgynllunio'r ffordd rydym yn gofalu am blant a phobl ifanc er mwyn gallu gwneud y gorau dros ein pobl ifanc, eu teuluoedd a'u cymunedau drwy ddarparu gwasanaethau sy'n lleol, wedi'u cynllunio'n lleol ac yn atebol yn lleol.

Fel rhan o'r Cytundeb Cydweithio rhwng Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru, mae ymrwymiad clir i 'ddileu elw o ofal plant sy'n derbyn gofal' fel elfen allweddol o'r agenda radical hon.

Mae ein cynigion yn canolbwyntio, i ddechrau, ar ddarpariaeth gofal preswyl preifat i blant, ochr yn ochr â gofal maeth yn y sector annibynnol.

Mae Bwrdd Rhaglen amlasiantaeth wedi'i sefydlu i fwrw ati â'r gwaith technegol a datblygu i gefnogi ein hopsiynau deddfwriaethol, ffurfio ein dull gweithredu yn y dyfodol a sefydlogi'r farchnad.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/dileu-elw-o-ofal-plant-syn-derbyn-gofal-briffio-rhagfyr-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Crynodeb o drafodaeth y Bwrdd Rhaglen – 22 Tachwedd 2023

## Cynnydd

Cynhaliwyd cyfarfod arall o'r Grŵp Cyflawni ar gyfer Trawsnewid Gwasanaethau Plant a'r Bwrdd Trosolwg Gweinidogol ym mis Hydref.

Ar 22 Hydref 2023, cynhaliwyd Uwchgynhadledd ar gyfer Plant a Phobl Ifanc â Phrofiad o Fod Mewn Gofal yn y Gogledd, lle'r oedd y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol yn bresennol.

Roedd y Siarter Rhianta Corfforaethol bellach wedi'i lansio'n gyhoeddus ac roedd gwaith ar y gweill i ddatblygu pecyn cymorth a chynllun ymgysylltu, ac i gryfhau'r canllawiau.

Byddai'r gwerthusiad o'r cynllun peilot ysgolion rhithwir yn dechrau yn y flwyddyn newydd. Roedd 13 o awdurdodau lleol wedi cymryd rhan.

Roedd fframwaith monitro newydd wedi'i sefydlu gydag awdurdodau lleol a Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol ar gyfer darpariaeth i blant a phobl ifanc ag anghenion cymhleth.

Roedd canllawiau diwygiedig yn cael eu cwblhau'n derfynol ar yr Adolygiad Diogelu Unedig Sengl, a'r bwriad oedd dechrau'r hyfforddiant ym mis Ionawr a lansio'r canllawiau yn ystod gwanwyn 2024.

Roedd y cynllun peilot Llysoedd Teulu Cyffuriau ac Alcohol bellach wedi dod i ben, ac roedd y gwerthusiad yn mynd rhagddo.

Roedd swyddogion wedi parhau i gyfarfod ag awdurdodau lleol i drafod eu Strategaethau Comisiynu Lleoliadau.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/dileu-elw-o-ofal-plant-syn-derbyn-gofal-briffio-rhagfyr-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Roedd wedi cymryd dipyn o waith ac amser i gwblhau cyfarwyddiadau polisi ar gyfer y Bil Gofal Cymdeithasol o ystyried y cymhlethdodau dan sylw.

## Ffrwd gwaith cam 2

Roedd y pedair ffrwd waith wedi parhau i gyfarfod yn rheolaidd i gefnogi gwaith y Bwrdd Rhaglen.

Cynhaliwyd gweithdy hefyd ar 20 Tachwedd 2023 gyda chefnogaeth aelodau o ffrwd waith 3 i ddarparu cyngor arbenigol ar drosglwyddo i fodel nid-er-elw ar gyfer darparwyr er elw cyfredol. Ymunodd llawer o bobl â'r digwyddiad, ac mae'r adborth a gafwyd yn ei sgil yn cael ei ddwyn ynghyd.

## Strategaethau comisiynu lleoliadau awdurdodau lleol

Roedd awdurdodau lleol wedi bod yn adolygu eu Strategaethau Comisiynu Lleoliadau, llawer ohonynt gyda chefnogaeth Consortiwm Comisiynu Cymru ar gyfer Plant.

Yr her allweddol a nodwyd oedd rhag-weld anghenion yn y dyfodol. Roedd hyn yn gysylltiedig â'r broses o wneud penderfyniadau ynghylch sut i weithredu'r polisi. Hyd nes y byddai syniad clir o nifer y darparwyr er elw a fyddai'n trosglwyddo i fodel nid-er-elw, roedd yn anodd rhag-weld yr anghenion.

## Cyfathrebu

Dosbarthwyd Cynllun Gweithredu Cyfathrebu drafft i aelodau i ystyried ymhellach pa ddulliau cyfathrebu wedi'u teilwra oedd eu hangen a'r camau nesaf i ddatblygu'r dulliau hyn.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/dileu-elw-o-ofal-plant-syn-derbyn-gofal-briffio-rhagfyr-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Roedd angen i'r gwaith o ddatblygu dulliau cyfathrebu fod yn broses ailadroddol, gan weithio gydag aelodau'r Bwrdd a'r ffrydiau gwaith i ddatblygu'r cynnwys a chynghori ar fecanweithiau dosbarthu. Byddai hyn yn sicrhau bod yr holl randdeiliaid yn cael negeseuon wedi'u targedu.

Roedd diweddariad cyffredinol wedi'i ddatblygu gan Lywodraeth Cymru a'i ddosbarthu i holl aelodau'r Bwrdd a'r ffrydiau gwaith er mwyn iddynt ei rannu â'u rhwydweithiau.

**Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.**
Drllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/dileu-elw-o-ofal-plant-syn-derbyn-gofal-briffio-rhagfyr-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.